**Rhif: WG34666**

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

# Fersiynau drafft o orchymyn newydd ar yr esemptiad eglwysig ac o ganllawiau ar arferion gorau

Dyddiad cyhoeddi: **16 Ebrill 2018**
Camau gweithredu gofynnol: Ymatebion erbyn **13 Gorffennaf 2018**

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron

**Trosolwg**

Diben yr ymgynghoriad hwn yw gofyn ichi fynegi barn ar:

i. fersiwn ddrafft o Orchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018
ii. canllawiau drafft ar arferion gorau, *Rheoli Newid i Addoldai Hanesyddol yng Nghymru*: *yr Esemptiad Eglwysig*; a
iii. chanllawiau drafft ar arferion gorau, *Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru*.

Fe'u datblygwyd fel rhan o raglen ehangach i wella'r ffordd y mae amgylchedd hanesyddol Cymru yn cael ei warchod a'i reoli.

**Sut i ymateb**

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn dod i ben ar 13 Gorffennaf 2018. Gallwch ymateb ar-lein, mewn ebost neu drwy’r post.

**Ar-lein**
Gofynnwn i chi gwblhau’r holiadur ar-lein ar dudalennau ymgynghori gwefan Llywodraeth Cymru:

https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau

**E-bost**
Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad Ch a'i hanfon i:

historicenvironmentleg@llyw.cymru

**Post**
Llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad yn Atodiad Ch a'i hanfon i:

Ymgynghoriad ar Reoliadau a Chanllawiau 3
Y Tîm Deddfwriaeth a Pholisi
Cadw
Llywodraeth Cymru
Plas Carew
Uned 5/7 Cefn Coed
Parc Nantgarw
Caerdydd
CF15 7QQ

| | |
|---|---|
| **Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig** | **Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, Braille ac mewn ieithoedd eraill.**<br><br>Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016<br>http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/4/contents/enacted<br><br>*Polisi Cynllunio Cymru*: 'Yr Amgylchedd Hanesyddol'<br>http://gov.wales/docs/desh/publications/161117ppw-chapter-6-cy.pdf<br><br>*Nodyn Cyngor Technegol 24: Yr Amgylchedd Hanesyddol*<br>http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan-24/?skip=1&lang=cy<br><br>*Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*<br>http://cadw.gov.wales/docs/cadw/publications/Conservation_Principles_CY.pdf |
| **Manylion cyswllt** | I gael rhagor o wybodaeth am yr ymgynghoriad hwn, cysylltwch â:<br><br>historicenvironmentleg@llyw.cymru<br><br>Y Tîm Deddfwriaeth a Pholisi<br>Cadw<br>Llywodraeth Cymru<br>Plas Carew<br>Cefn Coed<br>Parc Nantgarw<br>Caerdydd<br>CF15 7QQ<br><br>03000 259 091 / 03000 259 090 |

**Diogelu data**

Sut y defnyddir y sylwadau a'r wybodaeth y byddwch yn eu rhoi i ni

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgyngoriadau ar gyfer y dyfodol.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.
Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu inni gadw gwybodaeth yn ôl o dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig inni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn inni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Ni chaiff eich data eu cadw am fwy na thair blynedd.

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i gael gweld y data personol y mae Llywodraeth Cymru yn eu cadw amdanoch;
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny;
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data;
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu';
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

Ffôn : 01625 545 745 neu 0303 123 1113

Gwefan: https://ico.org.uk/

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Cyfeiriad e-bost: Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru

## Cyflwyniad

1. Gwnaeth Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 ('Deddf 2016') welliannau pwysig i'r systemau sy'n bodoli eisoes ar gyfer gwarchod a rheoli amgylchedd hanesyddol Cymru. Roedd angen is-ddeddfwriaeth newydd, polisïau a chyngor cynllunio newydd, a chanllawiau newydd ar arferion gorau hefyd i hyrwyddo ac i helpu i sicrhau bod yr amgylchedd hanesyddol yn cael ei reoli'n ofalus yn unol â'r athroniaeth a'r arferion cyfredol ym maes cadwraeth.

2. Dyma'r trydydd ymgynghoriad ar faterion yn ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol. Mae'n ymdrin ag is-ddeddfwriaeth arfaethedig a chanllawiau ar arferion gorau y bwriedir iddynt ategu Deddf 2016. Dyma nhw isod:

   A. fersiwn ddrafft o Orchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018;

   B. canllawiau drafft ar arferion gorau, *Rheoli Newid i Addoldai Hanesyddol yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig*; a

   C. canllawiau drafft ar arferion gorau, *Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru*.

   Mae'r ymgynghoriad yn ymdrin yn gryno â phob un o'r dogfennau, yn eich cyfeirio at yr atodiad lle ceir y fersiwn ddrafft berthnasol ac yn gofyn cwestiynau perthnasol.

3. Gan fod yr ymgynghoriad yn ymdrin â mwy nag un agwedd ar yr amgylchedd hanesyddol, mae'n bosibl na fydd gennych ddiddordeb mewn rhai o'r cwestiynau na phrofiad o'r hyn y maent yn ymdrin ag ef. Felly, mae rhwydd hynt ichi ateb cynifer neu gyn lleied o gwestiynau ag y dymunwch.

## A. Fersiwn ddrafft o Orchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018

4. O dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 ('Deddf 1990'), mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru lunio rhestr o adeiladau sydd o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol arbennig. Mae hynny'n atal gwaith rhag cael ei wneud ar adeilad rhestredig pe bai'r gwaith hwnnw'n effeithio ar ei gymeriad fel adeilad o ddiddordeb archaeolegol neu hanesyddol arbennig, oni bai bod y gwaith yn cael ei awdurdodi drwy roi cysyniad adeilad rhestredig. Gan amlaf, yr awdurdodau cynllunio lleol sy'n gweinyddu'r systemau cydsynio ffurfiol a ddefnyddir i reoli newidiadau i adeiladau rhestredig. Fodd bynnag, mae Deddf 1990 yn gwneud trefniadau gwahanol ar gyfer rheoli adeiladau eglwysig rhestredig drwy arfer a elwir yn esemptiad eglwysig.

5. Mae Deddf 1990 hefyd yn gwahardd dymchwel unrhyw adeilad nad yw wedi'i restru sydd mewn ardal gadwraeth oni bai bod yr awdurdod priodol, sef yr awdurdod cynllunio lleol fel arfer, wedi rhoi cysyniad ardal gadwraeth, ond mae, unwaith yn rhagor, yn darparu ar gyfer esemptiad eglwysig ar gyfer addoldai.

6. Mae Deddf 1990 yn pennu mai dim ond i adeiladau eglwysig sy'n cael eu defnyddio am y tro at ddibenion eglwysig y mae'r esemptiad yn gymwys. Mae'r un Ddeddf yn caniatáu i Weinidogion Cymru fynd ati mewn amryfal ffyrdd i gyfyngu ar y defnydd a wneir o'r esemptiad eglwysig, gan gynnwys peidio â chaniatáu iddo gael ei ddefnyddio o gwbl neu ei gyfyngu i adeiladau penodol neu fathau penodol o adeiladau, i ddynodiadau penodol neu i ffydd benodol, neu i fathau penodol o waith.

7. Ar hyn o bryd, mae'r esemptiad eglwysig yn cael ei reoleiddio yng Nghymru o dan Orchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1994 (OS 1994/1771) ('Gorchymyn 1994') sy'n cyfyngu ar hyd a lled yr esemptiad ac yn ei gyfyngu i chwe enwad. Yn wreiddiol, roedd Gorchymyn 1994 yn ymdrin â Chymru a Lloegr, ond fe'i disodlwyd yn Lloegr.

8. Mae'r esemptiad yn parhau yn ei le oherwydd y bernir bod y systemau rheoli sy'n cael eu harfer gan yr enwadau esempt yn gwarchod adeiladau i'r un graddau â'r system seciwlar.

9. Mae'r esemptiad yn cydnabod hefyd y gallai fod angen i adeiladau eglwysig newid os ydynt i barhau'n addoldai byw.

*Y Cynnig*

10. Amgaeir fersiwn ddrafft o Orchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018 yn Atodiad A. Bydd hwn yn dirymu ac yn disodli Gorchymyn 1994.

11. Dyma'r prif newidiadau y bwriedir eu gwneud i'r esemptiad eglwysig:
    - dileu'r esemptiad ar gyfer cysyniad ardal gadwraeth;
    - tynnu'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig o'r rhestr o enwadau esempt;
    - eglurhad am yr adeiladau sy'n dod o dan yr esemptiad er mwyn osgoi achlysuron lle mae angen cysyniad seciwlar a hefyd gysyniad gan yr enwad.

12. Mae Deddf 1990 yn dweud mai dim ond os yw adeilad yn cael ei ddefnyddio at ddibenion eglwysig y mae'r esemptiad yn gymwys. Dim ond os bwriedir i adeilad heb ei restru sydd mewn ardal cadwraeth gael ei ddymchwel yn llwyr (neu bron yn llwyr) y mae gofyn cael cysyniad ardal gadwraeth — mae'n anodd dychmygu mewn achos o'r fath y byddai modd parhau i'w ddefnyddio at ddibenion eglwysig. Yr unig bryd y gallai'r esemptiad ddal i fod yn gymwys yw os bwriedir dymchwel rhan fawr o'r adeilad a pharhau i wneud defnydd eglwysig o'r rhan sydd ar ôl. O ystyried mai o dan amgylchiadau prin yn unig y mae'r esemptiad

eglwysig ar gyfer ardal gadwraeth yn gymwys, mae'r Gorchymyn drafft newydd yn ei ddileu. Bydd yn gliriach i'r awdurdodau cynllunio lleol ac i'r enwadau esempt os bydd pob cais am gysyniad ardal gadwraeth yn cael ei drafod o dan y system seciwlar.

13. Dyma'r enwadau esempt sydd wedi'u cynnwys yn y gorchymyn arfaethedig: yr Eglwys yng Nghymru, yr Eglwys Gatholig, yr Eglwys Fethodistaidd, Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr, Undeb Bedyddwyr Cymru, ac Eglwys Loegr (ar gyfer yr eglwysi hynny yng Nghymru sy'n dod o dan ei hawdurdodaeth hi). Mae'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig wedi dweud ei bod am fynd yn ôl i gael ei rheoli gan yr awdurdodau cynllunio lleol o dan y system seciwlar ac wedi gofyn i gael ei thynnu o'r gorchymyn arfaethedig.

14. Bwriedir i'r esemptiad ymdrin â'r materion a ganlyn:

- adeilad rhestredig sy'n cael ei ddefnyddio'n bennaf fel addoldy; ac
- unrhyw wrthrych neu strwythur sy'n sownd wrth yr adeilad hwnnw, neu sydd o fewn ei gwrtil, ac sy'n ffurfio rhan o'r tir er nad yw'n sownd wrth yr adeilad.

15. Mae estyn yr esemptiad fel ei fod yn gymwys i strwythurau cwrtil a restrwyd ar wahân yn newid o'i gymharu â Gorchymyn 1994. Bydd yn rhoi diwedd ar sefyllfaoedd lle'r oedd gofyn cael cysyniadau seciwlar am waith ar strwythurau eglwysig rhestredig, megis pyrth mynwentydd neu nodweddion eraill mewn mynwentydd, hyd yn oed os oedd trefniadau'r enwadau esempt yn eu gwarchod i'r un graddau.

| | |
|---|---|
| **C1.** | **A ydych chi'n cytuno y dylid dileu'r esemptiad eglwysig ar gyfer ardal gadwraeth? Os nad ydych, nodwch o dan ba amgylchiadau y dylai barhau i fod yn gymwys.** |

| | |
|---|---|
| **C2.** | **A ydych chi'n cytuno y dylai unrhyw wrthrych neu strwythur o fewn cwrtil adeilad eglwysig rhestredig gael ei ystyried yn rhan o'r adeilad eglwysig hwnnw at ddibenion yr esemptiad eglwysig, pa un a yw wedi'i restru yn ei hawl ei hun ai peidio? Os nad ydych, esboniwch pam.** |

| | |
|---|---|
| **C3.** | **A ydych chi'n cytuno nad yw'r Gorchymyn drafft wedi gwneud unrhyw newidiadau sylweddol heblaw'r rheini a ddisgrifir uchod?** |

## B. Canllawiau drafft ar arferion gorau: *Rheoli Newidiadau i Addoldai Hanesyddol yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig*

16. Canllawiau ar arferion gorau yw *Rheoli Newidiadau i Addoldai Hanesyddol yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig*. Fe'u paratowyd er mwyn helpu i weithredu'r gorchymyn arfaethedig Gorchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru)

2018. Amgaeir y testun drafft yn Atodiad B. Maent yn nodi'r egwyddorion arweiniol i'w hystyried wrth fynd ati i gynllunio newidiadau i addoldai rhestredig sy'n dod o dan y Gorchymyn. Mae ynddynt hefyd god ymarfer ar gyfer trefniadau cydsynio'r enwadau sy'n esbonio'r hyn y dylid ei gynnwys yn y broses benderfynu er mwyn sicrhau bod adeilad neu strwythur yn cael ei warchod i'r un graddau ag o dan y system seciwlar.

17. Mae'r canllawiau ar arferion gorau wedi'u hanelu'n bennaf at yr enwadau hynny sydd eisoes wedi'u hesemptio o'r system reoli seciwlar. Byddant o ddiddordeb hefyd i awdurdodau cynllunio lleol, cynulleidfaoedd ac unigolion sydd â diddordeb mewn gwarchod addoldai rhestredig.

| | |
|---|---|
| **C4.** | **A ydych chi'n cytuno â'r egwyddorion arweiniol yn rhan 4 o *Rheoli Newidiadau i Addoldai Hanesyddol yng Nghymru: yr Esemptiad Eglwysig*? Os nad ydych, sut byddech yn eu newid?** |

| | |
|---|---|
| **C5.** | **A ydych chi'n cytuno bod y cod ymarfer ar gyfer gweithdrefnau cysyniad enwadol yn ymdrin â'r materion allweddol? Os nad ydyw, beth sydd ar goll?** |

## C. Canllawiau drafft ar arferion gorau: *Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru*

18. Ers i henebion gael eu gwarchod gyntaf ym 1882, mae dros 4,000 o safleoedd yng Nghymru wedi cael eu dynodi drwy eu rhestru. Yn eu plith y mae amrywiaeth eang o henebion, yn amrywio o safleoedd archaeolegol sy'n gyfan gwbl o dan ddaear, adfeilion cestyll a mynachlogydd canoloesol ysblennydd Cymru, i strwythurau milwrol o gyfnod y Rhyfel Oer.

19. Mae *Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru* yn ganllawiau drafft ar arferion da (fe'u hamgaeir yn Atodiad C) sy'n nodi'r egwyddorion cyffredinol i'w hystyried wrth reoli a gwneud newidiadau i henebion cofrestredig. Maent yn esbonio sut i wneud cais am gysyniad heneb gofrestredig a hefyd rolau a chyfrifoldebau perchenogion a Cadw, Gwasanaeth Amgylchedd Hanesyddol Llywodraeth Cymru.

20. Mae'r canllawiau wedi'u hanelu'n bennaf at berchenogion, meddianwyr a rheolwyr henebion cofrestredig. Maent yn esbonio'r hyn y mae bod yn berchen ar heneb gofrestredig yn ei olygu a sut i ofalu amdani. Dylent hefyd helpu perchenogion, meddianwyr a rheolwyr i roi ystyriaeth i ddogfen Cadw, *Egwyddorion Cadwraeth ar gyfer Rheoli Amgylchedd Hanesyddol Cymru mewn Ffordd Gynaliadwy*.

21. Mae'r arferion rheoli a chynnal a chadw yr un mor berthnasol i bob heneb, boed yn gofrestredig ai peidio, a byddant o gymorth i unrhyw un sydd â diddordeb mewn deall amgylchedd hanesyddol Cymru ac mewn gofalu amdano.

22. Dylai awdurdodau sy'n gwneud penderfyniadau ddefnyddio'r canllawiau hyn law yn llaw â: *Polisi Cynllunio Cymru: Nodyn Cyngor Technegol 24:*

*Yr Amgylchedd Hanesyddol* ac *Egwyddorion Cadwraeth* Cadw i lywio'u polisïau a'u cyngor eu hunain, ac i lywio'r broses gwneud penderfyniadau.

| | |
|---|---|
| **C6.** | **A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau drafft, *Rheoli Henebion Cofrestredig yng Nghymru*, yn rhoi esboniad clir o rolau a chyfrifoldebau'r rheini sy'n gysylltiedig â rheoli a chynnal a chadw henebion cofrestredig? Os nad ydynt, sut y gellid eu gwella?** |

| | |
|---|---|
| **C7.** | **A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau drafft yn rhoi esboniad clir o'r broses cydsyniad heneb gofrestredig? Os nad ydynt, sut y gellid eu gwella?** |

| | |
|---|---|
| **C8.** | **A ydych chi'n cytuno bod y canllawiau drafft yn rhoi digon o wybodaeth i helpu gyda'r gwaith o reoli newidiadau i henebion cofrestredig yn ofalus? Os nad ydynt, beth y gellid ei ychwanegu?** |